# GWYBODAETH
# I RIENI A GOFALWYR

FARMS FOR CITY CHILDREN

Dros y 50 mlynedd diwethaf, rydym wedi croesawu mwy na 105,000 o blant a phobl ifanc i'n ffermydd. Y llynedd yn unig, ymwelodd 108 o grwpiau ysgol â'n tair fferm yn Nyfnaint, Swydd Gaerloyw a Sir Benfro.

Yn ystod yr wythnos ar y fferm, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffermio go iawn ac yn dysgu am fyd natur a'r amgylchedd.





**Beth all plant a phobl ifanc ei ddisgwyl ar eu hymweliad?**

- Tasgau fferm ymarferol gan gynnwys gofalu am anifeiliaid
- Teithiau cerdded i weld byd natur ac i wylio adar.
- Garddio a choginio.
- Prydau blasus a maethlon wedi'u coginio ar y fferm.
- Crefftau naturiol ac amser rhydd yn ein ffermdai a'n gerddi.
- Ystafelloedd cysgu cyfforddus a lolfeydd clyd.
- Amgylchedd di-sgrin gydag ystafelloedd gweddi aml-ffydd ar gael.

"Cafodd ein merch wythnos anhygoel yn cymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau cyffrous, a gallwn weld sut mae hi wir wedi tyfu o ran hyder ac annibyniaeth."

"Roedd y profiad yn un cadarnhaol a chyfoethog iawn. Mae gan ein mab fwy o hyder, hunan-gred, parodrwydd i ymgymryd â thasgau, mae ganddo fwy o fenter ac mae'n gyffredinol mwy bodlon a thawel."

**Pa mor hir yw ymweliad?**
Fel arfer, mae ymweliadau'n rhedeg o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd arweinydd eich ysgol neu grŵp yn cadarnhau hyn gyda chi.

**A yw'r fferm yn ddiogel i blant?**
Diogelwch yw'n prif flaenoriaeth ar y ffermydd. Mae gennym reolau diogelwch a hylendid clir sydd wedi'u hymarfer yn dda. Mae ein timau fferm profiadol yn sicrhau bod pob person ifanc yn deall y rheolau ac yn teimlo'n hyderus yn eu dilyn. Mae gan bob un o'n timau staff fferm wiriadau DBS estynedig ar waith.

**"Mae fy mhlentyn wedi mwynhau'r trip hwn yn fawr iawn ac mae bellach yn fwy chwilfrydig, gwybodus a deallus tuag at fyd natur."**

**Sut beth yw'r bwyd ar y fferm?**
Rydym yn cynnig tri phryd bwyd blasus a maethlon bob dydd, a'r cyfan wedi'i goginio ar y fferm. Mae gan ein timau cegin brofiad helaeth o baratoi bwyd sy'n diwallu anghenion dietegol meddygol a chrefyddol.

**"Syndod i mi oedd bod fy mhlentyn wedi ymdopi mor dda. Dim ond unwaith mae wedi bod i ffwrdd o adre o'r blaen ac nid oedd wedi ymdopi'n dda'r pryd hwnnw. Cafodd amser gwych ac mae ganddo atgofion i bara oes o'r ymweliad hwn."**

**Ble fydd pobl ifanc yn cysgu?**
Mae gan ein tai fferm ystafelloedd cysgu un rhyw sy'n cynnig gwelyau bwnc clyd. Darperir dillad gwely glân a ffres, ac mae'r adnoddau am gawod naill ai ensuite neu'n agos at yr ystafelloedd cysgu.

**Beth sydd angen i bobl ifanc ddod gyda nhw i'r fferm?**
Cewch restr glir o bopeth sydd angen i'ch plentyn ei bacio. Rydym yn darparu dillad addas ar gyfer gweithio tu fas (fel oferôls neu ddillad gwrth ddŵr). Yr unig eitem bydd angen ar eich plant yn ychwanegol at eu dillad bob dydd yw pâr o 'wellingtons'.

**Am ragor o wybodaeth, lluniau a fideos, ewch i'n gwefan: www.farmsforcitychildren.org**

Council for Learning Outside the Classroom



FARMS FOR CITY CHILDREN

Farms for City Children is a charity registered in England and Wales (325120)